19t Medi 2024

# Cynhadledd CELT 2024

## 140 Mlynedd o Wella Addysg Uwch




CELT

Prifysgol Bangor University

Canolfan Gwella Addysgu a Dysgu

Centre for the Enhancement of Learning and Teaching

# Croeso!

*"Hoffem estyn croeso cynnes i'r holl gynrychiolwyr i'ncynhadledd flynyddol. Mae'r rhaglen wedi ei chynllunio i ddodâ chydweithwyr o bob rhan o'r Brifysgol, a'r gymunedacademaidd ehangach, at ei gilydd i ysbrydoli ein gilydd, ac iddathlu ein llwyddiannau."*

***Yr Athro Nicky Callow***

***Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr)***



CELT
Prifysgol Bangor University
Canolfan Gwella Addysgu a Dysgu
Centre for the Enhancement of Learning and Teaching

# Y Prif Anerchiad

## Jim Dickinson

Wonkhe



Mae Jim yn Olygydd Cyswllt (Undebau Myfyrwyr) yn Wonkhe ac mae ganddo ddiddordeb arbennig mewn profiad myfyrwyr, llywodraethiant a rheoleiddiad prifysgolion - ac mae'n arwain ar waith Wonkhe gydag undebau myfyrwyr.

Mae ei gefndir o ran gyrfa wedi bod yn cefnogi arweinyddiaeth myfyrwyr. Mae wedi dal uwch rolau yn Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr – lle bu'n arwain ar ddatblygiad, ymgyrchoedd a strategaeth wleidyddol undebau myfyrwyr – ac roedd yn Brif Swyddog Gweithredol Undeb Myfyrwyr Prifysgol East Anglia, yn darparu rheolaeth strategol i agweddau elusennol a masnachol yr undeb yn ogystal â chefnogaeth o ran polisi i'r myfyrwyr oedd yn swyddogion etholedig.

Mae Jim wedi gwasanaethu fel llywodraethwr ac ymddiriedolwr mewn addysg bellach ac addysg uwch ac yn y sector gwirfoddol, ac mae'n siaradwr rheolaidd yn nigwyddiadau a chynadleddau'r sector. Mae'n gymrawd Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau, yn or-hoff o'r Eurovision Song Contest, ac yn breuddwydio am gael ymweld â Moldofa.

**CELT**
Prifysgol Bangor University
Canolfan Gwella Addysgu a Dysgu
Centre for the Enhancement of Learning and Teaching

## *Anti-social Learning: How to Ruin the Outputs and Outcomes of Higher Education*

Os dysgodd y pandemig unrhyw beth i ni, y peth hwnnw oedd bod ceisio profi addysg uwch ar eich pen eich hun bach yn rhywbeth na fyddem yn ei argymell i neb bron. Ers hynny mae'r sector wedi dysgu llawer am berthyn ac am effaith hynny ar bopeth o iechyd meddwl i ddeilliannau – ond wrth i'r esgid fach wasgu'n dynnach fyth ar fyfyrwyr a phrifysgolion, a yw hi dal yn bosibl darparu profiad academaidd i fyfyrwyr mewn modd sy'n galluogi myfyrwyr a staff i ffynnu'n academaidd ac yn broffesiynol? Bydd Jim yn archwilio'r cwestiynau hyn a mwy.

| | |
|---|---|
| 09:00 | **Cofrestru**<br>Pontio, Lefel 5 |
| 09:30 | **Agor y Gynhadledd ac Estyn Croeso**<br>PL5<br>Yr Athro Edmund Burke,<br>Yr Is-ganghellor |
| 10:00 | **Gweithdai Rhyngweithiol** |
| | Lleoliad: PL2<br>**Classroom Management**<br>Yr Athro Caroline Bowman, Dr Ama Eyo a Steve Barnard<br><br>Lleoliad: ROR (L3)<br>**Local to Global: Globalising the Curriculum**<br>Dr Thandi Gilder a'r Deoniaid Ymgysylltu Byd-eang<br><br>Lleoliad: PL5<br>**Embedding Employability / Graduate Skills**<br>Yr Athro Fay Short, Dr Nia Young, Dr Siwan Mitchelmore a Hizamshol Kamal |
| 11:00 | **Te a choffi**<br>Llawr Gwaelod a Lefel 2<br><br>**Arddangosiad a Stondinau Rhithrealiti**<br>CoLab: Lefel 3 |
| 12:00 | **Cyflwyniadau Cyflym**<br>PL5<br>Cyfres o gyflwyniadau 5 munud<br>• *Defnyddio sesiynau grŵp ymarfer adlewyrchol i gefnogi dysgu a datblygiad myfyrwyr gwaith cymdeithasol tra ar leoliad ymarfer / The use of reflective practice group sessions to support the learning and development of student social workers whilst on practice placement* [In Welsh with translation] – Wendy Roberts<br>• *Advance HE's Leading Educational Change Program - cooperatively managing and executing education transformation initiatives* - Ewa Krzyszczyk<br>• *Innovative Learning Through Design Research: Collaborating with the NHS, and engaging students with Real-World Problems* - Katie Roberts-Tyler<br>• *Preparing Students for Multi-cultural International Experiences* - Hefin Gwilym<br>• *Empowering Learning: The Role of Reading List Systems in Modern Education* - Marc Duggan |
| 12:30 | **Cinio a Rhwydweithio**<br>Llawr Gwaelod a Lefel 2<br><br>**Arddangosiad a Stondinau Rhithrealiti**<br>CoLab: Lefel 3 |
| 13:30 | **Past and Future Enhancement of Learning**<br>PL5<br>Yr Athro Nicky Callow (Dirprwy Is-ganghellor)<br>Yr Athro Stephen Doughty |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 13:50 | **Symud i Sesiynau Cyfochrog** | | |
| 14.00 | **Sesiynau cyfochrog**<br>Cyflwyniadau ar is-themâu: | | |
| | Lleoliad: PL2<br>Cadeirydd: Dr Dei Huws<br><br>**Asesu ac Adborth**<br><br>• *Assessment overload and how to avoid it: a new BU Assessment Framework* – Dei Huws<br>• *Developing an Interactive Data Dashboard for Assessment Review* - Jennifer Shepperson<br>• *Unsure how to embed sustainability into your subject? How assessment washback can help* - Owain Llewellyn | Lleoliad: PL5<br>Cadeirydd: Dr Rebecca Jones<br><br>**Digidol a Deallusrwydd Artiffisial**<br><br>• *Exploring the latest AI features in Blackboard* [In Welsh with translation] - Sian Edwardson-Williams and Bethan Jones<br>• *Know your audience: Using Panopto to understand learner behaviours and trends* - Josh Williams<br>• *Student voice: the importance of digital tools for learning and inclusivity, a student panel* – Esther Griffiths and Stephanie Horne | Lleoliad: ROR (L3)<br>Cadeirydd: Yr Athro Stephen Doughty<br><br>**Cyfleoedd Dysgu trwy Brofiad**<br><br>• *Creative Modern Languages* - Sarah Pogoda<br>• *The Development and Validation of the Public Speaking Threats Inventory* - Stuart Beattie<br>• *Students as Colleagues, Teachers as Learners: Reflective Insights into Crafting an Effective Learning Environment* - Hamidreza Bagheri and Bader Saud H Alotaibi |
| 15:00 | **Te a choffi**<br>Lefel 5<br><br>**Arddangosiad a Stondinau Rhithrealiti**<br>CoLab: Lefel 3 | | |
| 15:25 | **Prif anerchiad: Anti-Social Learning: How To Ruin The Outputs and Outcomes of Higher Education**<br>PL5<br>Jim Dickinson, Wonkhe | | |
| 16:25 | **Sylwadau Cyn Cloi** | | |
| 16.30 | **Digwyddiad i Ddathlu Cydnabyddiaeth**<br>PL2 | | |
| 17:30 | **Diwedd y Gynhadledd** | | |

CELT
Prifysgol Bangor University
Canolfan Gwella Addysgu a Dysgu
Centre for the Enhancement of Learning and Teaching

# CYFLWYNIADAU CYFLYM

**1. Defnyddio sesiynau grŵp ymarfer adfyfyriol i gefnogi dysgu a datblygiad myfyrwyr gwaith cymdeithasol tra ar leoliad ymarfer**

*Wendy Roberts*

*Ysgol Gwyddorau Iechyd*

[Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg gyda chyfieithiad]

Ystyrir ymarfer adfyfyriol yn gysyniad sylfaenol o fewn addysg ac ymarfer Gwaith Cymdeithasol. Gall sesiynau grŵp ymarfer adfyfyriol gynnig gofod pwysig i adfyfyrio ar ymarfer a dysgu ohono, sydd yn gysyniadau pwysig o fewn y cylch dysgu trwy brofiad. Mae'n ofynnol i fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru gwblhau o leiaf 200 diwrnod o ddysgu ymarfer wedi'i asesu. I gefnogi dysgu a hyrwyddo cysylltiad y myfyrwyr MA Gwaith Cymdeithasol tra ar leoliad, trefnir a hwylusir sesiynau grŵp ymarfer adfyfyriol ar gyfer yr holl fyfyrwyr mewn grwpiau bach. Defnyddir y model Cysylltiadau Adfyfyriol fel strwythur ar gyfer y sesiynau: mae'r model hwn yn caniatáu i bob person gyflwyno eu hadfyfyrdod, a hefyd gwrando'n weithredol ar adfyfyrdodau'r myfyrwyr eraill. Rôl yr hwylusydd yw cysylltu'r cyfranogwyr â'i gilydd drwy nodi themâu a gwneud arsylwadau creadigol a chreu cysylltiadau rhwng profiadau a phwyntiau dysgu o'r holl adfyfyrdodau. Fel rhan o'm datblygiad personol drwy gwblhau'r PGCertHE ac er mwyn llywio datblygiad y sesiynau yma ar gyfer y dyfodol, crëwyd holiaduron dienw. Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o'r ymatebion a nodwyd 3 thema allweddol, sef bod â gofod diogel i adfyfyrio, cysylltu â chyfoedion, a chefnogi llesiant. Roedd yr holl fyfyrwyr wedi nodi pwysigrwydd y sesiynau ar gyfer eu hymarfer ac wedi nodi y byddai cael mwy o sesiynau grŵp ymarfer adfyfyriol yn cael ei werthfawrogi ar draws y cwrs. Mae'r canfyddiadau'n amlygu pwysigrwydd sesiynau grŵp ymarfer adfyfyriol i fyfyrwyr trwy gynnig gofod diogel i gysylltu gyda chyfoedion a hefyd trwy gefnogi datblygiad sgiliau'r myfyrwyr trwy eu cefnogi i gael dealltwriaeth ddyfnach o'u hymarfer. Felly, drwy gefnogi myfyrwyr i gymryd rhan mewn sesiynau grŵp adfyfyriol, gallwn anelu at hyrwyddo hyn fel arfer da o fewn y gweithle: nid yn unig mae'r sesiynau yn cefnogi llesiant, ond hefyd yn cynnig sylfaen dda ar gyfer ymarfer adfyfyriol i'w cefnogi trwy gydol eu gyrfa.

# CYFLWYNIADAU CYFLYM

**2. Advance HE's Leading Educational Change Program - cooperatively managing and executing education transformation initiatives.**

*Ewa Krzyszczyk*
*Yr Ysgol Gwyddorau Amgylcheddol a Naturiol*

Mae sefydliadau addysg uwch yn aml yn dechrau mentrau trawsnewid i addasu eu cwricwla a'u profiadau i fyfyrwyr gan wneud hynny ar gyfer cynulleidfaoedd newydd, neu oherwydd tueddiadau'r farchnad, a disgwyliadau myfyrwyr mewn amgylchedd cystadleuol ac ansefydlog. Bydd "arweinwyr" academaidd ac "arweinwyr" o'r gwasanaethau proffesiynol bron yn ddieithriad yn cydweithio ar y mentrau hyn a bydd ganddynt yn aml fodelau gweithredol, diwylliannau a dulliau gweithredu gwahanol iawn i'w gilydd wrth reoli a chyflawni newid. Yr unig raglen arweinyddiaeth yn y maes sy'n canolbwyntio ar reoli a gweithredu mentrau trawsnewid addysg mewn modd cydweithredol yw'r Rhaglen Arwain Newid Addysgol. Mae'n cyfuno "arweinwyr" unedau o gefndiroedd academaidd a phroffesiynol i gynyddu dealltwriaeth, cydweithrediad a chyd-ddarparu.

Nod y rhaglen yw: Dod ag arweinwyr newid o'r maes academaidd ac o wasanaethau proffesiynol ynghyd o fewn y brifysgol a chyda prifysgolion eraill, i drafod 'agendâu newid' ac 'isadeiledd newid' yn eu priod sefydliadau; Hwyluso trafodaeth agored a blaengar ynghylch cymhlethdodau diwylliannol a gweithredol rhaglenni newid ar draws gwasanaethau a thimau, a'r heriau arweinyddiaeth sy'n gysylltiedig â hynny; Cael arweinwyr i ddechrau deialog traws-sefydliadol am y rhaglenni newid addysg yr ystyrir eu bod yn flaenoriaeth ac y maent yn rhan ohonynt, er enghraifft mewn perthynas â pholisi a rheoleiddio addysg uwch, datblygu portffolio, profiad myfyrwyr, trawsnewid digidol; Annog cyfranogwyr i ddiffinio 'themâu newid' y Setiau Dysgu Gweithredol, gan uchafu perthnasedd a defnyddioldeb yr hyn a ddysgir trwy'r rhaglen; Cefnogi cyfranogwyr i arwain ar newid addysg, gan archwilio'r gwerthoedd, yr egwyddorion cydweithredol, y modelau ymgynghori a'r sgiliau rheoli project a fydd yn sicrhau'r llwyddiant mwyaf.

Yn y cyflwyniad cyflym hwn byddaf yn rhoi amlinelliad o'r rhaglen ac yn crynhoi fy mhrofiadau fy hun.

CELT
Prifysgol Bangor University
Canolfan Gwella Addysgu a Dysgu
Centre for the Enhancement of Learning and Teaching

# CYFLWYNIADAU CYFLYM

**3. Innovative Learning Through Design Research: Collaborating with the NHS, and engaging students with Real-World Problems**

*Katie Roberts-Tyler*
*Yr Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg*

Sut mae cyflwyno addysgu arloesol, ysgogi myfyrwyr i ddysgu, datrys problemau'r byd go iawn, a darparu cyfleoedd i fyfyrwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil dylunio? Trosolwg yw'r cyflwyniad hwn o'r modiwl Dulliau Ymchwil Dylunio ar gyfer yr MSc Dylunio Arloesi Cymhwysol, sef project 13 wythnos dan arweiniad Prifysgol Bangor, mewn cydweithrediad â phartneriaid allanol gan gynnwys y GIG, a Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru. Nod y project oedd creu cyfleoedd i fyfyrwyr gael profiad uniongyrchol o ddulliau ymchwil dylunio, megis mapio profiadau defnyddwyr, a chyfweld â chyfranogwyr ac arbenigwyr, er mwyn cynhyrchu nifer o fewnwelediadau a chyfleoedd ar gyfer datblygu syniadau a datrys problemau yn y dyfodol, tra'n defnyddio methodolegau y gellid eu defnyddio mewn ymarfer proffesiynol yn y dyfodol.

Mae'r cyflwyniad hwn yn amlinellu'r gwaith o baratoi a hwyluso'r project a'r gweithgareddau ymchwil, yn ogystal â'r dulliau cydweithredol a ddefnyddiwyd megis defnyddio gweithlyfr Miro, a byddaf yn cloi'r cyflwyniad trwy roi trosolwg o ganlyniadau'r project.

CELT
Prifysgol Bangor University
Canolfan Gwella Addysgu a Dysgu
Centre for the Enhancement of Learning and Teaching

# CYFLWYNIADAU CYFLYM

**4. Preparing Students for Multi-cultural International Experiences**

*Hefin Gwilym*
*Ysgol Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas*

Bydd y papur hwn yn adfyfyrio ar brofiadau dysgu rhyngwladol, amlddiwylliannol y bu myfyrwyr o Fangor ac o brifysgolion eraill yn yr Undeb Ewropeaidd yn rhan ohonynt. Bydd yn ystyried gwersi ar gyfer dewis myfyrwyr a’u paratoi am y profiadau. Bydd yn canolbwyntio ar y llwyddiannau a'r pethau a aeth o'i le a sut i osgoi camgymeriadau. Mae'n tynnu ar dros ddeng mlynedd o brofiad yn cefnogi partneriaethau rhyngwladol ar gyfer hwyluso symudedd myfyrwyr mewn sefyllfaoedd lle mae'n rhaid iddynt barchu gwahanol ddiwylliannau, gwerthoedd ac ieithoedd myfyrwyr eraill.

# CYFLWYNIADAU CYFLYM

**5. Empowering Learning: The Role of Reading List Systems in Modern Education.**

*Marc Duggan*
*Y Gwasanaethau Digidol*

Teitl y cyflwyniad hwn yw “Empowering Learning: The Role of Reading List Systems in Modern Education,” a’r bwriad yw tynnu sylw at effaith drawsnewidiol systemau rhestrau darllen ar addysg uwch mewn meysydd megis rheoli adnoddau’n ganolog, gwella hygyrchedd, ymgysylltiad myfyrwyr, a chydweithio di-dor rhwng y llyfrgell a chydweithwyr eraill.

Mae systemau rhestrau darllen yn gweithredu fel llwyfan canolog ar gyfer curadu a rheoli adnoddau academaidd, gan wella hwylustod a hygyrchedd i fyfyrwyr ac addysgwyr fel ei gilydd. Trwy integreiddio adnoddau amlgyfrwng a safbwyntiau amrywiol, mae systemau rhestrau darllen yn cefnogi’r arferion pedagogaidd gorau, gan feithrin dysgu gweithredol, meddwl beirniadol, a chynwysoldeb. Bydd y sgwrs yn archwilio sut y gellir defnyddio’r systemau hyn i greu amgylchedd dysgu deinamig a chynhwysol, gan gyfoethogi, yn y pen draw, y profiad academaidd a gwella canlyniadau dysgu i fyfyrwyr.

CELT
Prifysgol Bangor University
Canolfan Gwella Addysgu a Dysgu
Centre for the Enhancement of Learning and Teaching

# ASESU AC ADBORTH

1. **Assessment overload and how to avoid it: a new BU Assessment Framework**

*Dei Huws*
*Ysgol Gwyddorau'r Eigion, Arweinydd CELT dros Asesu ac Adborth*

Mae'n amlwg y gallai gosod asesiadau rhy helaeth lethu myfyrwyr a staff. Mae'r arolwg cyflym a gynhaliwyd ymhlith y myfyrwyr y llynedd yn nodi pocedi ar draws ein hysgolion lle mae gan fyfyrwyr y canfyddiad eu bod yn cael eu "llethu". Felly sut mae diffinio beth yw terfynau 'helaethrwydd' wrth asesu? Mae tegwch yn dweud y dylid bod â'r un dull ar draws y brifysgol. Yn 2018, lluniodd Uned Sicrhau Ansawdd (fel yr oedd) Prifysgol Bangor ddogfen Fframwaith Asesu a oedd yn cysylltu pwysoliad credydau asesiadau gyda helaethrwydd yr asesiad e.e. 10 credyd ≡ traethawd 2000 o eiriau. Ers hynny, mae llawer o sefydliadau addysg uwch eraill yn y Deyrnas Unedig wedi cynhyrchu dogfennau tebyg. Ond mae'r dirwedd asesu wedi newid yn gyflym yn y cyfamser. Mae fersiwn newydd o'r Fframwaith yn cael ei hadolygu'n derfynol ar hyn o bryd, sy'n ceisio adlewyrchu ehangder y mathau o asesiadau a geir bellach ac sy'n meithrin yr angen i fabwysiadu persbectif rhaglen gyfan o ran 'tirwedd asesu' y myfyriwr. Roedd y Fframwaith blaenorol yn torri tir newydd, ond ar hyn o bryd mae'n parhau heb ei newid a dim ond yn ystod y broses ddilysu y daw i'n sylw. Y nod wrth ei diweddaru yw gwneud hon yn ddogfen waith sy'n cael ei hadolygu a'i diweddaru bob dwy flynedd; a bod yn fan cyswllt cyntaf i academyddion wrth gynllunio neu adolygu modiwlau a rhaglenni.

Mae asesu yn elfen sylfaenol o addysg uwch; yn ogystal â darparu marc i bob myfyriwr, mae asesiadau sydd wedi'u cynllunio'n dda yn cynorthwyo'r dysgu, ac yn pennu i raddau helaeth beth mae myfyrwyr yn ei ddysgu a sut. Er gwaethaf pwysigrwydd hyn, mae ein dealltwriaeth o'r dirwedd asesu – yn benodol amrywiaeth, amlder ac amseriad yr asesiadau y mae myfyrwyr yn dod ar eu traws – yn parhau'n anghyflawn.

CELT
Prifysgol Bangor University
Canolfan Gwella Addysgu a Dysgu
Centre for the Enhancement of Learning and Teaching

# ASESU AC ADBORTH

## 2. Developing an Interactive Data Dashboard for Assessment Review

*Jenny Shepperson*
*Swyddog Asesu, Ysgol Gwyddorau'r Eigion*

Gan gydnabod yr angen am drosolwg cynhwysfawr o'r portffolio asesu a gynigir i fyfyrwyr, rydym wedi datblygu dangosfwrdd rhyngweithiol ar gyfer asesiadau yn defnyddio PowerBI, sy'n cyfleu data asesu mewn fformat weledol sy'n hawdd i staff ei ddefnyddio. Mae'r dangosfwrdd hwn yn darparu mewnwelediadau gwerthfawr ar sawl lefel, gan gynnwys asesiadau ar lefel ysgol, rhaglen, modiwl ac asesiadau unigol. Er enghraifft, mae'n caniatáu i ni adolygu'r llwyth asesu ar lefel ysgol a modiwl, mae'n hwyluso gwiriadau rheoli ansawdd (e.e., nodi dyddiadau cyflwyno sydd ar goll neu'n anghywir), ac mae'n cefnogi'r gwaith o adolygu modiwlau trwy gyfleu'n weledol dueddiadau yn yr ystadegau asesu dros amser. Un o swyddogaethau allweddol y dangosfwrdd yw adolygu dosbarthiad dyddiadau cyflwyno asesiadau, gan ein galluogi i nodi ac atal achosion pan fod dyddiadau cyflwyno'n gwrthdaro â'i gilydd, neu yn pentyrru. Yn yr Ysgol Gwyddorau Eigion, defnyddir y teclyn hwn ar ddechrau pob semester i adolygu ac addasu dyddiadau cyflwyno asesiadau, gyda'r bwriad o lethu llai ar fyfyrwyr a gwella boddhad.

Mae'r dangosfwrdd yn trosoli data a fewnbynnir gan staff i WorkTribe. Fodd bynnag, nid yw'r data sydd ar gael am y mathau o wahanol asesiadau'n ddigon manwl i alluogi dadansoddiad manylach, ac nid oes unrhyw wybodaeth am y sgiliau penodol sy'n cael eu datblygu a'u hasesu. Er mwyn gwella defnyddioldeb y dangosfwrdd ymhellach, rydym yn cynnal archwiliad sgiliau yn Ysgol Gwyddorau'r Eigion, i adolygu'r mathau o asesiadau a'r sgiliau y maent yn eu hasesu, a sut mae'r rhain yn amrywio ar draws blynyddoedd a rhaglenni.

Mae datblygu'r dangosfwrdd hwn wedi rhoi mewnwelediadau defnyddiol i'r dirwedd asesu yn Ysgol Gwyddorau'r Eigion, gan wneud gwell defnydd o ffynonellau data presennol, a gwella gallu staff i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata ynghylch asesiadau.

# ASESU AC ADBORTH

**3. Unsure how to embed sustainability into your subject? How assessment washback can help**

*Owain Llewellyn*

*Y Ganolfan Addysg Ryngwladol*

Mae’r cyflwyniad hwn yn edrych ar sut mae Nod Datblygu Cynaliadwy 11 y Cenhedloedd Unedig (Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy) wedi cael ei integreiddio’n llwyddiannus yn rhan o’r cwrs Saesneg ar gyfer Dysgu yn y Brifysgol yng Ngholeg Rhyngwladol Prifysgol Bangor. Mae'r fenter, sy'n rhan o ymdrech ehangach i ymgorffori nodau byd-eang yn rhan o raglen Blwyddyn 1, yn dangos sut y gall cynllun asesu arloesol ysgogi ymgysylltiad ystyrlon â materion cynaliadwyedd tra'n bodloni amcanion academaidd craidd ar yr un pryd.

Conglfaen y dull hwn oedd datblygu asesiad diwedd tymor a oedd yn gofyn i fyfyrwyr ysgrifennu traethawd academaidd wedi ei gyd-destunoli o fewn y fframwaith o wneud Prifysgol Bangor yn fwy cynaliadwy. Roedd yr asesiad hwn nid yn unig yn cyflawni’r deilliannau dysgu o ran ysgrifennu academaidd ond roedd iddo hefyd ôl-effaith bwerus ar y cwrs cyfan. O ganlyniad, ymgysylltodd myfyrwyr o ddifri â phynciau megis:

1. Gwella cynhwysiant i fyfyrwyr rhyngwladol ym Mangor
2. Ymchwilio i effaith mannau gwyrdd ar lefelau straen ymhlith myfyrwyr rhyngwladol Tsieineaidd
3. Archwilio atebion cynaliadwy i Fangor fel dinas arfordirol nodweddiadol yn y Deyrnas Unedig
4. Strategaethau i wella lles cyffredinol a chynaliadwyedd yn y gymuned leol

Bydd y cyflwyniad yn manylu ar y broses o gynllunio’r asesiad, sut y cafodd ei roi ar waith, a'r effaith ddilynol ar ymgysylltiad myfyrwyr a deilliannau dysgu. Bydd hefyd yn trafod sut y llwyddodd y dull hwn i feithrin dealltwriaeth fwy cyfannol o sgiliau academaidd o fewn cyd-destun byd go iawn, gan annog myfyrwyr i feddwl yn feirniadol am faterion byd-eang ar lefel leol.

Trwy rannu’r astudiaeth achos hon, fy nod yw dangos sut y gall mynd ati’n ofalus i alinio asesu â nodau cynaliadwyedd byd-eang wella sgiliau academaidd ac ymwybyddiaeth o heriau cymdeithasol dybryd, gan ddarparu model ar gyfer addysgwyr eraill sy’n ceisio ymgorffori’r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn rhan o’u cwricwla hyd yn oed pan nad yw eu modiwl ym maes gwyddorau’r amgylchedd.

CELT
Prifysgol Bangor University
Canolfan Gwella Addysgu a Dysgu
Centre for the Enhancement of Learning and Teaching

# DIGIDOL A DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL

1. **Exploring the latest AI features in Blackboard**
   *Bethan Jones a Sian Edwardson-Williams*
   *Gwasanaethau Digidol*
   [Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg gyda chyfieithiad]

   Bydd y cyflwyniad hwn yn edrych ar sut y gellir mynd ati'n ymarferol i ddefnyddio'r nodweddion newydd sy'n cael eu gyrru gan ddeallusrwydd artiffisial o fewn Blackboard. Byddwn yn trafod sut y gall y datblygiadau arloesol hyn gefnogi'r broses o gynllunio asesiad. Nod y sesiwn yw rhoi'r wybodaeth i staff addysgu fedru gwneud defnydd effeithiol o'r teclynnau hyn, gan gyfoethogi'r addysgu a phrofiad myfyrwyr mewn amgylchedd dwyieithog.

# DIGIDOL A DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL

## 2. Know your audience: Using Panopto to understand learner behaviours and trends

*Josh Williams*

*Yr Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg*

Mae’r astudiaeth hon yn archwilio tueddiadau ymgysylltu a chyrhaeddiad ymhlith myfyrwyr dylunio cynnyrch ym Mhrifysgol Bangor wrth ddefnyddio cyfarwyddyd fideo er mwyn dysgu am graffeg ddigidol. Gyda dibyniaeth gynyddol ar offer digidol mewn arferion dylunio modern, mae caffael sgiliau sy’n seiliedig ar feddalwedd ochr yn ochr â thechnegau ymarferol traddodiadol yn hanfodol i ddylunwyr cynnyrch. Mae'r astudiaeth hon yn archwilio sut mae dysgu trwy fideo, a ddarperir trwy fodel hybrid mewn amgylchedd ystafell ddosbarth ben i waered, yn effeithio ar ymgysylltiad myfyrwyr a pherfformiad academaidd dros dair carfan (2021, 2022, a 2023). Dadansoddwyd data meintiol o gofnodion academaidd a metrigau ymgysylltu â’r fideo, ynghyd ag adborth ansoddol o arolygon, i ddeall ymddygiad a hoffterau myfyrwyr.

Mae'r canlyniadau'n dangos cydberthynas gadarnhaol rhwng ymgysylltu â’r fideo, yn enwedig sawl munud a wyliwyd a chyfraddau cwblhau’r fideos, a chyrhaeddiad academaidd. Fodd bynnag, gwelwyd tuedd ostyngol mewn ymgysylltiad a chyrhaeddiad ar draws y carfannau, gyda charfan 2023 yn dangos y gostyngiad mwyaf arwyddocaol. Mae'r gostyngiad hwn yn awgrymu efallai nad yw fformat presennol y fideo yn cefnogi dysgu myfyrwyr i'r eithaf. Amlygodd adborth myfyrwyr bryderon ynghylch hyd a rhwyddineb llywio trwy’r fideos, gan arwain at ddatblygu cyfres ddiwygiedig o fideos cyfarwyddiadol. Cafwyd derbyniad da i’r fformat newydd, sy’n cynnwys fideos byrrach, stampiau amser er mwyn hwyluso’r llywio, a chanllawiau ysgrifenedig cyflenwol, ac mae’r myfyrwyr yn fwy bodlon a’u canfyddiad yw bod y dysgu yn fwy effeithiol. Daw'r astudiaeth i'r casgliad, er y gall cyfarwyddyd fideo wella deilliannau dysgu, fod ei effeithiolrwydd yn dibynnu'n fawr ar ba mor dda y mae'r cynnwys yn cyd-fynd ag anghenion ac arddulliau dysgu myfyrwyr. Mae'r canfyddiadau'n tanlinellu pa mor bwysig yw dylunio ailadroddol ac adborth parhaus wrth ddatblygu deunyddiau hyfforddi. Mae’r ymchwil yn cyfrannu at y corff cynyddol o wybodaeth am ddysgu digidol mewn addysg dylunio ac yn darparu argymhellion ymarferol ar gyfer gwella ymgysylltiad a chyrhaeddiad myfyrwyr mewn addysgu sy’n seiliedig ar fideo.

# DIGIDOL A DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL

**3. Student voice: the importance of digital tools for learning and inclusivity a student panel**

*Esther Griffiths a Stephanie Horne*
*Y Gwasanaethau Anabledd*

Bydd y panel hwn yn archwilio rôl ganolog offer digidol wrth feithrin amgylchedd dysgu cynhwysol. Bydd yn cynnwys mewnwelediadau gan fyfyrwyr sydd wedi defnyddio offer digidol yn llwyddiannus i wella eu profiadau dysgu, gan amlygu'r heriau a'r llwyddiannau a gafwyd ar hyd y ffordd. Bydd y drafodaeth yn tynnu sylw at enghreifftiau o'r byd go iawn o'r effaith y mae llwyfannau digidol lle darperir cefnogaeth yn ei chael ar wella ymgysylltiad, hygyrchedd a thegwch mewn addysg.

CELT
Prifysgol Bangor University
Canolfan Gwella Addysgu a Dysgu
Centre for the Enhancement of Learning and Teaching

# CYFLEOEDD DYSGU TRWY BROFIAD

1. **Creative Modern Languages**
   *Sarah Pogoda*
   *Yr Ysgol Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau*

   Project a ariennir gan yr Academi Brydeinig yw 'Creative Modern Languages' sy'n edrych ar asesu creadigol ac ymchwil artistig ym maes Ieithoedd Modern. Hoffem annog cydweithwyr a myfyrwyr i ailystyried sut y caiff Ieithoedd Modern eu haddysgu, eu asesu a'u hymchwilio trwy gyfrwng ymarfer artistig. Mae gwefan y project yn gweithredu fel hyb mynediad agored ar-lein lle dewch o hyd i enghreifftiau o arferion da mewn asesu creadigol ac ymchwil artistig mewn Ieithoedd Modern.

   Bydd y cyflwyniad yn adfyfyrio ar dreialon i roi asesiad creadigol ar waith yn y BA Ieithoedd Modern (Almaeneg) yn 2023/24. Cafodd y myfyrwyr eu cyflwyno i wahanol dechnegau arbrofol o weithio gydag ieithoedd i'w galluogi i gymryd rhan eu hunain mewn gweithgareddau creadigol er mwyn deall yn well beth mae siarad ieithoedd yn ei olygu, sut maen nhw'n ymdeimlo â siarad dwy neu ragor o ieithoedd a sut y gallant ddarganfod eu hunaniaeth ieithyddol eu hunain mewn modd chwareus yn hytrach na dim ond perfformio allan o werslyfrau. Mae'r cyflwyniad yn gwahodd cydweithwyr i feddwl sut y gallant integreiddio ymarferion tebyg (neu opsiynau asesu) yn rhan o'u modiwlau - mewn ieithoedd a thu hwnt.

CELT
Prifysgol Bangor University
Canolfan Gwella Addysgu a Dysgu
Centre for the Enhancement of Learning and Teaching

# CYFLEOEDD DYSGU TRWY BROFIAD

## 2. The Development and Validation of the Public Speaking Threats Inventory

*Stuart Beattie*
*Yr Ysgol Seicoleg a Gwyddor Chwaraeon*

Mae siarad yn gyhoeddus yn dasg gyson mewn lleoliadau galwedigaethol ac addysgol. Fodd bynnag, mae hynny'n aml yn destun pryder, ac mewn achosion eithafol, yn peri ofn, panig, ac ymateb osgoi. Er bod llawer o holiaduron eisoes yn bodoli o fewn y llenyddiaeth sy'n ymwneud â phryder am siarad yn gyhoeddus, nid ydynt yn nodi'r ysgogiadau bygythiol penodol sy'n achosi'r ymateb gorbryder. Mae diystyru ffynonellau'r bygythiad canfyddedig yn peryglu effeithiolrwydd unrhyw ymyriad. Felly, pwrpas yr astudiaeth bresennol oedd datblygu a dilysu teclyn hunan-adrodd sy'n asesu ffynonellau bygythiadau sy'n gysylltiedig â siarad cyhoeddus. Defnyddiwyd llenyddiaeth berthnasol a gwaith cymhwysol yr awdur i gynhyrchu eitemau ar gyfer y teclyn. Cynhaliwyd tair astudiaeth i asesu cynnwys a dilysrwydd yr Holiadur Bygythiadau Siarad Cyhoeddus (PSTQ), gan ddefnyddio tri sampl annibynnol.
Yn seiliedig ar sampl o 248 o oedolion (Mage = 33.54, SD = 7.89), defnyddiodd Astudiaeth 1 ddull Modelu Hafaliad Strwythurol Bayesaidd (BSEM), gan ddatgelu model tri ffactor sy'n cynnwys 26 eitem. Roedd y model tri ffactor yn cynnwys cynnwrf ffisiolegol, hunan-ganfyddiadau, a barn allanol. Aeth Astudiaeth 2 ati i ddilysu ymhellach fodel y gwnaethpwyd mymryn o ddiwygio iddo (27 eitem) gan ddefnyddio dull BSEM gyda sampl mwy (n = 709; Mage 18 = 38.97, SD = 12.33). Cyflwynir tystiolaeth o sefydlogrwydd lluniad a dilysrwydd meini prawf y PSTQ, gyda phob sgôr is-raddfa yn cydberthyn yn arwyddocaol ag asesiadau presennol o orbryder. Asesodd Astudiaeth 3 ddibynadwyedd prawf-ailbrawf a dilysrwydd rhagfynegi gan ddefnyddio sampl o brifysgol yn y Deyrnas Unedig (n = 131; Mage = 20.16, SD = 2.56). Yn olaf, mae'r papur hwn yn amlygu diffygion y profiad prifysgol presennol o ran lleihau gorbryder siarad cyhoeddus. Disgwylir i'r PSTQ dilys wella a symleiddio'n sylweddol y methodolegau presennol ar gyfer asesu a thrin gorbryder sy'n gysylltiedig â siarad cyhoeddus.

CELT
Prifysgol Bangor University
Canolfan Gwella Addysgu a Dysgu
Centre for the Enhancement of Learning and Teaching

# CYFLEOEDD DYSGU TRWY BROFIAD

## 3. Students as Colleagues, Teachers as Learners: Reflective Insights into Crafting an Effective Learning Environment

*Hamidreza Bagheri a Bader Saud H Alotaibi*
*Coleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor*

Cydweithrediad fydd y cyflwyniad hwn rhwng Arweinydd y Rhaglen Meistr Corfforedig Rhyngwladol (Hamid, o Iran) a myfyriwr rhyngwladol ar y radd Meistr (Bader, o Saudi Arabia). Er bod ein cefndiroedd wedi'u gwreiddio mewn traddodiadau addysgol lle mae'r hierarchaeth athro-myfyriwr yn fwy amlwg, rydym wedi croesawu dull cydweithredol athro-myfyriwr yn ein dosbarthiadau i gyfoethogi'r dysgu. Bydd y cyflwyniad hwn yn adfyfyrio arno'i hun fel cynnyrch partneriaeth lwyddiannus rhwng myfyriwr ac athro fel enghraifft o'r cysyniad o weld myfyrwyr fel cydweithwyr, gan gyferbynnu â'r modelau hierarchaidd mwy traddodiadol y deuwn ni ohonynt. Drwy rannu mewnwelediadau o'n partneriaeth, byddwn yn dangos sut mae'r newid hwn mewn persbectif wedi arwain at ddatblygu amgylchedd dysgu effeithiol sy'n cefnogi dysgu drwy brofiad ac yn parchu cymunedau dysgu amrywiol (UKPSF V1). Mae ein dull yn cyd-fynd ag UKPSF A4, gan gynnig awgrymiadau ymarferol i addysgwyr greu amgylcheddau ystafell ddosbarth lle mae myfyrwyr ac athrawon yn cyd-ddysgu a chyd-ddatblygu, gan hyrwyddo twf cydfuddiannol. Mae'r dull cydweithredol hwn hefyd wedi hwyluso integreiddio profiadau byd go iawn yn rhan o gynnwys modiwlau, gan wneud dysgu yn yr ystafell ddosbarth yn fwy perthnasol i leoliadau proffesiynol a digwyddiadau bywyd go iawn. Elfen allweddol o'r cyflwyniad hwn yw'r ddealltwriaeth bod athrawon, mewn amgylchedd dysgu gwirioneddol effeithiol, yn dysgu ac yn datblygu ochr yn ochr â'u cyfoedion—sef, yn yr achos hwn, eu myfyrwyr. Bydd y mynychwyr yn gadael gyda strategaethau y gallant eu rhoi ar waith yn eu haddysgu eu hunain, gan wella canlyniadau addysgol mewn lleoliad cydweithredol athro-myfyriwr.

CELT
Prifysgol Bangor University
Canolfan Gwella Addysgu a Dysgu
Centre for the Enhancement of Learning and Teaching

# Diolch!

*"Diolch am ddod Heddiw.*

*Edrychwch ar wefan CELT am weithdai sydd ar ddod a'r Rhaglen DPP lawn ar gyfer 2024/25."*

[https://www.bangor.ac.uk/cy/celt](https://www.bangor.ac.uk/cy/celt)



***Yr Athro Stephen Doughty***

***Pennaeth Dros Dro y Ganolfan Gwella Addysgu a Dysgu (CELT)***